**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** **HSS(2)-03-03(p.7)**

**Dyddiad:** **Dydd Mercher 16 Gorffennaf 2003**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora , Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Teitl:** **Gwella Amgylchedd Ysbytai Cyffredinol**

## Diben

1. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys y papur a ysgrifennwyd ar y cyd gyda Chymdeithas y Cynghorau Iechyd Cymuned.

## Crynodeb

2. Gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad am y broses o wella amgylchedd ysbytai (y broses HPE).

3. Cychwynnwyd ar y broses HPE yn gynharach eleni. Diben y broses yw ceisio sicrhau gwelliant parhaus yn nifer o wahanol feysydd sy'n ymwneud ag amgylchedd yr ysbyty yn unol â phrofiad y cleifion a defnyddwyr eraill. Gwnaeth grŵp aml-ddisgyblaethol nodi materion oedd yn effeithio ar brofiadau'r cleifion, gan gynnwys dodrefn, arwyddion, arogleuon a glanhau fel meysydd oedd yn berthnasol i farn cleifion am amgylchedd yr ysbyty. Nid yw'r broses HPE yn ymwneud â safonau technegol glanhau mewn ysbytai.

4. (Bydd y safonau technegol ar gyfer glanhau mewn ysbytai GIG Cymru yn cael eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf gyda'r swyddfeydd Rhanbarthol AGIGC, y System Rheoli Perfformiad Ystadau ac Adnoddau a'r Fframwaith Perfformiad y GIG yn darparu'r systemau monitro).

5. Y Cynghorau Iechyd Cymuned fydd yn gyfrifol am fynd i'r afael â'r broses HPE gyda Chymdeithas y Cynghorau Iechyd Cymuned yn darparu'r adroddiadau. Ni fydd yr wybodaeth yn cael ei chyflwyno ar ffurf tabl cynghrair neu drwy unrhyw ddulliau eraill o 'enwi a chodi cywilydd'.

6. Ym mis Mai cwblhawyd hunan asesiadau llinell sylfaen yr Ymddiriedolaethau yn y deunaw ysbyty sydd wedi eu cynnwys yn y broses.

7. Bydd asesiadau'r Cynghorau Iechyd Cymuned yn cael eu cwblhau ym mis Medi/Hydref 2003.

## Y Cefndir

8. Nodwyd yn 'Gwella Iechyd yng Nghymru' "Mae gan bobl Cymru a'r gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gofalu amdanynt, yr hawl i ddisgwyl gofal iechyd sy'n fodern, yn lân ac mewn amgylchedd sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda'.

9. Gwnaethpwyd llawer o waith o fewn y maes gan gynnwys:

- Safonau Glendid Cenedlaethol a fydd yn cael eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2003 sy'n mynd i'r afael â safonau technegol glanhau mewn ysbytai GIG.
- Bydd System Rheoli Perfformiad Adnoddau ac Ystadau yn casglu gwybodaeth ganolog ar ystod o weithgareddau sy'n ymwneud â glanhau a'r amgylchedd.
- Yr asesiadau ar gyfer gwella amgylchedd ysbytai (y broses HPE) o dan arweiniad y Cynghorau Iechyd Cymuned ar gyfer asesu'r amgylchedd ehangach ar gyfer cleifion.

10. Bydd yr asesiadau HPE yn helpu i sicrhau bod gwelliant parhaus yn y maes. Ni fyddant yn cyhoeddi tablau cynghrair sy'n enwi a chodi cywilydd ond, yn hytrach, byddant yn rhoi gwybodaeth y gellir ei defnyddio ar gyfer hyrwyddo gwelliannau, gyda'r Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru yn llunio asesiadau ac adroddiadau annibynnol. Yn bennaf y meysydd hynny sy'n cael eu hasesu yw'r rhai y gellir eu gwella drwy fod yn fwy ymwybodol o brofiadau'r cleifion a thrwy gymryd camau rheoli priodol. Serch hynny, mewn rhai achosion, y bydd angen rhoi blaenoriaeth uwch i welliannau er mwyn i'r Ymddiriedolaeth fuddsoddi ynddynt.

11. Mae ffurflenni asesu wedi cael eu datblygu ar gyfer y pump prif faes gyda phob un ohonynt yn cynnwys ystod o feysydd asesu:

- Ardaloedd allanol - 37 maes asesu manwl
- Mynediadau a phrif dderbynfeydd - 36 maes asesu manwl
- Ardaloedd Cyffredinol - 37 maes asesu manwl
- Wardiau - 39 maes asesu manwl
- Is-adrannau - 42 maes asesu manwl

12. Mae meysydd asesu manwl ar gyfer y Wardiau yn cynnwys meysydd megis:

- Addurniad - ymddangosiad; cydlyniad; cyflwr; gorchudd llawr
- Dodrefn - addas; ymddangosiad; cryfder; cyflwr
- Dillad gwely - digonol; cyflwr; glendid; cyffyrddus
- Aroglau - glanhau; awyriad; ardaloedd y tŷ bach/ystafell ymolchi.

**Canlyniadau'r Asesiadau Llinell Sylfaen**

13. Mae'r Ymddiriedolaethau wedi enwebu aelod o'r Bwrdd i fod yn gyfrifol am y broses HPE ac maent wedi cyflwyno'u hasesiadau llinell sylfaen. Ar hyn o bryd mae'r canlyniadau'n cael eu gosod mewn bas data canolog a bydd y Cynghorau Iechyd Cymuned yn medru edrych arnynt ar gyfer y dadansoddiadau manwl.

14. Mae'r broses wedi caniatau'r Ymddiriedolaethau i fynd i'r afael ag adolygiad manwl iawn o safbwynt y claf. Mae gan yr holl feysydd sydd wedi eu nodi fel rhai sydd angen sylw gynlluniau gweithredu perthnasol.

15. Mae adolygiad cychwynnol o hunan asesiadau llinell sylfaen yr Ymddiriedolaeth wedi nodi bod y themâu sy'n dod i'r amlwg yn cynnwys:

- Mewn rhai ysbytai ymddengys bod materion penodol yn dod i'r amlwg, megis yr angen i wella arwyddion ledled yr ysbyty.

- Ymddengys mewn rhai ysbytai bod yr agwedd newydd hon yn nodi meysydd gwan iawn a fethwyd gan y mesurau presennol o dan yr asesiadau risg etc. Er enghraifft, yr angen am offer priodol i ddal gwastraff. Felly, gall y broses HPE fod yn ddull ychwanegol defnyddiol iawn ar gyfer ychwanegu at brosesau technegol presennol.

- Yn y rhan fwyaf o ysbytai mae'r ymatebion yn dangos nad oes gan leoliadau tebyg yn yr ysbyty yr un lefel o ran canlyniadau. Er enghraifft gall yr ymatebion ar gyfer y wardiau ddangos bod taclusrwydd a phreifatrwydd yn gwbl dderbyniol ar un ward ond yn gwbl annerbyniol mewn ward arall. Er ei bod hi'n gynnar iawn yn y broses ymddengys bod perfformiad wedi ei gysylltu â materion megis ymrwymiad unigolion, hyfforddiant, diwylliant, gweithio mewn tîm a pherchnogaeth yn hytrach na gosod safonau neu faterion sy'n ymwneud ag adnoddau.

- Awgryma'r canlyniadau bod angen yn aml am well cyfathrebu rhwng y gwahanol adrannau ee gwasanaethau gwesty, staff ar y ward, yr adran ystadau etc. Yr oedd nifer o'r Ymddiriedolaethau wedi enwebu staff o ystod o ddisgyblaethau i fynd i'r afael â'r hunan-asesiadau llinell sylfaen, a gofynnwyd i'r timau hynny i ystyried pethau o safbwynt y claf yn hytrach na safbwynt y gweithiwr proffesiynol unigol. Yr oedd hyn ynddo'i hun wedi amlinellu'r angen am brosesau cyfathrebu gwell.

16. Mae nifer o'r uchod a materion eraill wedi amlinellu'r angen i gynnwys y Bwrdd a sicrhau bod nifer o'r materion yn cael mwy o flaenoriaeth. Mae'r broses HPE yn ychwanegu cyfranogiad yr aelod o'r bwrdd a enwebwyd gan ofyn am eu llofnod ar bob cynllun gweithredu a'u hymrwymiad llawn gyda'r Cynghorau Iechyd Cymuned ar gyfer asesu ymweliadau a monitro parhaus.
(Llywodraeth Cynulliad Cymru)

17. Cyngor defnyddwyr annibynnol ar gyfer y GIG yng Nghymru yw'r Cynghorau Iechyd Cymuned ac fe'u sefydlwyd i fonitro ac adolygu'r broses o weithredu gwasanaethau iechyd lleol ac argymell gwelliannau. Fel rhan o'u dyletswyddau i fonitro gwasanaethau iechyd, mae'r Cynghorau Iechyd Cymuned wedi bod yn ymweld â'r ysbytai i fonitro ansawdd ers dros drideg blynedd. Yn ystod 2002/03 mae'r Cynghorau Iechyd Cymuned wedi bod yn ceisio safoni eu hagwedd tuag at yr ymweliadau monitro ansawdd ac maent yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'r GIG a Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn datblygu a chyflawni'r rhaglen HPE.

18. Bydd Cymdeithas y Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru yn mynd i'r afael â'r gwaith o hyfforddi'r Timau Amgylchedd Cleifion mewn Ysbytai yn ystod mis Gorffennaf ac Awst 2003. Bwriad yr hyfforddiant yw cyfarwyddo aelodau'r Cyngor Iechyd Cymuned â'r rhaglen a'r ffurflenni asesu, a sicrhau bod pob tîm yn cynnal yr ymweliadau yn unol â'r protocol â'r cod ymarfer y cytunwyd arnynt. Yn ogystal, bydd y sesiynau hyfforddi yn rhoi cyfle i aelodau archwilio gwahanol safbwyntiau o ran ansawdd a darparu gwasanaeth, ac edrych ar eu rôl hwythau fel cynrychiolwyr cleifion.

19. Bydd pob un o'r naw Ffederasiwn Cyngor Iechyd Cymuned yng Nghymru yn sefydlu Tîm Ymweld HPE sy'n cynnwys cynrychiolydd o'u Cynghorau Iechyd Cymuned. Bydd y Timau yn gallu gweld yr asesiadau llinell sylfaenol sy'n berthnasol i'r safleoedd y maent yn ymweld â hwy a byddant yn profi sampl o safleoedd ar gyfer asesiadau allanol ac yn adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn cynlluniau gweithredu'r ymddiriedolaeth.

20. Wrth gwblhau'r asesiadau allanol bydd y timau yn cwrdd â'r Cyfarwyddwr a enwebwyd gan yr Ymddiriedolaeth ac yn rhannu'u profiadau, yn trafod cynnydd ac yn rhoi copi o'r ffurflenni asesu wedi'u llenwi i'r Ymddiriedolaeth, Bydd y ffurflenni asesu gwreiddiol yn cael eu hanfon at Ystadau Iechyd Cymru er mwyn iddynt gasglu'r wybodaeth ynghyd a'i dadansoddi. Yn dilyn hyn bydd y Cynghorau Iechyd Cymuned yn paratoi adroddiad ar eu canfyddiadau.
(Cymdeithas y Cynghorau Iechyd Cymuned)

**Goblygiadau Ariannol**

21. Nid oes goblygiadau ariannol i'r fenter hon ar hyn o bryd. Ar y cychwyn, mae yna ddisgwyliad y bydd gwella'r camau a gymerir gan y rheolwyr yn sicrhau gwelliannau i'r amgylchedd ar gyfer y cleifion.

**Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor**

22. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r papur hwn.

**Jane Hutt AC**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Swyddog Cyswllt:** Helen Field, Adran GIG Cymru, Ffôn: 029 20 801056 a Cathy O'Sullivan, Cyngor Iechyd Cymuned, Ffôn: 01792 324201